# CYFLOGI PLANT YSGOL (DEDDF PLANT A PHOBL IFANC 1933)
# EMPLOYMENT OF SCHOOL CHILDREN (CHILDREN AND YOUNG PERSONS' ACT 1933)



☎ **YMHOLIADAU / ENQUIRIES** ☎

01286 679 007 Gweinyddoladyach@gwynedd.llyw.cymru

## CANLLAWIAU I GYFLOGWYR
## CYFLOGI PLANT OED YSGOL YN RHAN AMSER

Mae'r daflen hon yn egluro'r rheoliadau cyfreithiol tuag at weithwyr rhan amser o oedran ysgol gorfodol. Mae hyn yn cynnwys pawb sydd yn dal yn dilyn Cwricwlwm Cenedlaethol Blwyddyn 11, hyd yn oed os ydynt eisoes yn 16 oed. Ni ddaw'r rheoliadau hyn yn ddi-rym pan mae'r unigolyn ifanc yn 16 oed.

Mae holl gyflogaeth plant oedran ysgol yn rhan amser yn agored i reoliadau'r Awdurdod Addysg Lleol.

### BETH YW CYFLOGAETH?

Cyflogaeth yw unrhyw waith a wneir ar gyfer masnach neu alwedigaeth er elw neu mewn unrhyw fenter masnachol e.e. siopau, busnes, masnach.

Mae hyn yn cynnwys gwaith a wneir mewn busnes yn cael ei redeg gan riant a gwaith na chaiff y plentyn ei dalu amdano. Mae gwaith o'r fath yn ANGHYFREITHLON onid yw'r cyflogwr yn cael trwydded ar gyfer pob plentyn a gyflogir.

### GWEITHDREFNAU COFRESTRU

- Cyfrifoldeb y cyflogwr yw cofrestru'r plentyn gyda'r Awdurdod Addysg Lleol ble mae'r plentyn yn gweithio.
- Bydd angen i rieni arwyddo ffurflen gais a datgan bod y plentyn yn abl i weithio. Ni allant weithio heb i'r rhiant fod yn ymwybodol o hynny neu gydsynio.
- O fewn wythnos o gyflogi plentyn, dylai'r cyflogwr anfon at yr Awdurdod ffurflen gais wedi ei chwblhau yn disgrifio'r gwaith bydd y plentyn yn ei gyflawni. Dylai rhiant gadarnhau trwy lofnod. Os daw'r gwaith o fewn y rheol, rhoddir trwydded.
- NI FYDD plant nad ydynt wedi eu trwyddedu yn cael eu cydnabod fel gweithwyr at ddiben yswiriant. Gallai'r cyflogwr hefyd gael ei erlyn.

## A GUIDE FOR EMPLOYERS
## PART-TIME EMPLOYMENT SCHOOL AGED CHILDREN

This leaflet explains the legal regulations towards part time workers still of compulsory school age. This includes all those still in National Curriculum Year 11, even if they are already 16. The regulations do not end on the young person's 16th birthday.

All part time employment of children of school age is subject to regulation by the Local Education Authority.

### WHAT IS EMPLOYMENT?

Employment is any work done for a trade or occupation carried on for profit or in any commercial enterprise e.g. shops, business, trades, commerce.

This includes work done in a parent's business and work for which the child is not paid. Such work is ILLEGAL unless the employer obtains a licence for each child employed.

### REGISTRATION PROCEDURES

- It is the employer's responsibility to register the child with the Local Education Authority where the child works.
- An application form will require the parents signature and declaration of their child's fitness to work. They cannot work without the parent's knowledge or consent.
- Within one week of employing a child the employer must send to the Authority a completed application form setting out the work the child will do. This form should be countersigned by a parent. If the work falls within the regulation, a licence will be issued.
- Unlicensed children MAY NOT be recognised as employees for insurance purposes. The employer could also face prosecution.

## CYFLOGAETH A WAHERDDIR

- Gweithio mewn sinema, theatr, neuadd ddawns, disgo neu glwb nos (ac eithrio mewn cysylltiad â pherfformiad ble nad oes ond plant yn cymryd rhan).
- Gwerthu neu ddanfon alcohol.
- Danfon olewau tanwydd.
- Gweithio mewn cegin fasnachol.
- Casglu neu ddidoli ysbwriel.
- Cyflawni unrhyw waith ble mae angen i chi fod dros 3m uwch ben y ddaear.
- Cyflawni unrhyw waith ble gallech ddod i gysylltiad â chemegolion niweidiol.
- Casglu arian neu ganfasio o ddrws i ddrws.
- Bod yn agored i weld deunydd ar gyfer oedolion y caiff ei ystyried yn anaddas i blant.
- Gweithio mewn arwerthiannau ffonau.
- Gweithio mewn lladd-dy, neu siop gigydd.
- Gweithio ar gae ffair neu mewn arcêd ddifyrion.
- Gweithio gan roi 'gofal personol' mewn cartref preswyl neu nyrsio.

## PROHIBITED EMPLOYMENT

- Work in a Cinema, theatre, dance hall, disco or night club (except in connection with a performance given entirely by children).
- Sell or deliver alcohol.
- Deliver fuel oils.
- Work in a commercial kitchen
- Collect or sort refuse.
- Do any job which involves you being more than 3m off the ground.
- Do any job which may bring you into contact with harmful chemicals.
- Collect money or sell or canvass door to door.
- Be exposed to adult material which is considered unsuitable for children.
- Work in telephone sales.
- Work in slaughterhouse, abattoir or butcher's shop.
- Work in a fairground or amusement arcade.
- Work in a 'personal care' in a residential or nursing home.

| Oriau / Hours | |
|---|---|
| **Dyddiau Ysgol**<br>**School Days** | • Dim mwy na 2 awr y dydd rhwng 7 – 8.30 y bore a 3.30 – 7 yr hwyr (Uchafswm 12 awr yr wythnos).<br>• No more than 2 hours daily between 7 – 8.30a.m. – 3.30 – 7p.m. (Maximum 12 hours per week). |
| **Tymor Ysgol**<br>**School Term** | • Dim mwy na 12 awr yr wythnos (yn cynnwys penwythnos).<br>• No more than 12 hours per week (including weekends). |
| **Dydd Sadwrn**<br>**Saturday** | **Plant 13 – 14 oed/Children aged 13 – 14**<br>• Dim mwy na 5 awr y dydd rhwng 7 y bore a 7 yr hwyr. Rhaid cael egwyl am 1 awr ar ôl gweithio 4 awr yn olynol.<br>• No more than 5 hours between 7a.m. – 7p.m. No more than 4 hours continuously without a break for 1 hour.<br>**Plant 15 – 16 oed/Children aged 15 – 16**<br>• Dim mwy na 8 awr y dydd rhwng 7 y bore a 7 yr hwyr. Rhaid cael egwyl am awr ar ôl gweithio am 4 awr yn olynol.<br>• No more than 8 hours between 7a.m. – 7p.m. No more than 4 hours continuously without a break for 1 hour. |
| **Dydd Sul**<br>**Sunday** | • Dim mwy na 2 awr y dydd rhwng 7 y bore a 7 yr hwyr.<br>• No more than 2 hours between 7a.m. – 7p.m. |
| **Gwyliau Ysgol**<br>**School Holidays** | **Plant 13 – 14 oed/Children aged 13 – 14**<br>• Dim mwy na 5 awr y dydd rhwng 7 y bore a 7 yr hwyr (Uchafswm 25 awr yr wythnos – yn cynnwys penwythnos). Rhaid cael egwyl am 1 awr ar ôl gweithio 4 awr yn olynol.<br>• No more than 5 hours between 7a.m. – 7p.m. (maximum 25 hours per week – including weekends). No more than 4 hours continuously without a break for 1 hour.<br>**Plant 15 – 16 oed/Children aged 15 – 16**<br>• Dim mwy na 8 awr y dydd rhwng 7 y bore a 7 yr hwyr (Uchafswm 35 awr yr wythnos – yn cynnwys penwythnos). Rhaid cael egwyl am awr ar ôl gweithio am 4 awr yn olynol.<br>• No more than 8 hours between 7a.m. – 7p.m. (maximum 35 hours per week – including weekends). No more than 4 hours continuously without a break for 1 hour.<br><br>**Pwysig –** Mae'n ofynnol bod pob plentyn yn cael seibiant o bythefnos o'u gwaith yn ystod pob blwyddyn galendar, ac mae'n rhaid eu cymryd yn ystod gwyliau'r ysgol.<br>**Important –** All children must have a two-week break from employment in each calendar year, which must be taken during the school holidays. |